Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful,
Heol Pantyffin,
Twynyrodyn,
Merthyr Tudful,
CF47 OHU

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2012**

**gan**

**Dr David Gareth Evans**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd sirol Gymraeg yw Ysgol Santes Tudful. Mae'n gwasanaethu tref Merthyr a phentrefi cyfagos. Cymysg yw natur yr ardal breswyl y daw'r disgyblion ohoni gyda chanran uchel ohonynt, sef 60%, yn dod o gefndir sydd o dan anfantais economaidd, a'r gweddill o ardaloedd heb fod yn ffyniannus nac o dan anfantais. Daw 31% o'r disgyblion o ardal sy'n byw oddi fewn 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

Mae 404 o ddisgyblion, yn cynnwys 59 o blant rhan amser o oedran meithrin, ar y gofrestr. Mae 13% o'r disgyblion wedi'u cofrestru fel rhai â hawl i dderbyn prydau bwyd am ddim, ac mae hyn yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol a lleol. Mae gan un disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ac mae 12% arall ag anghenion dysgu ychwanegol; mae'r ffigurau hyn yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol a lleol.

Daw llawer o'r disgyblion o gartrefi Saesneg eu hiaith a dim ond dau y cant o'r disgyblion a ddaw o gartrefi ble mae'r Gymraeg yn brif iaith. Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen; yng nghyfnod allweddol 2 addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r nod o gael y disgyblion yn ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn 11 oed.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2006 ac fe fu rhai newidiadau staffio ers y dyddiad hwnnw. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Hydref 1993.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2011-2012 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Santes Tudful yw £3111 sy'n cymharu gydag uchafswm o £7735 ac isafswm o £328 ar gyfer ysgolion cynradd ym Merthyr Tydfil. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 23 o'r 24 o ysgolion cynradd ym Merthyr Tydfil.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol hon yn dda oherwydd:

- llwyddiant yr ysgol i ddatblygu dwyieithrwydd o oed cynnar;
- bod rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu ac yn cyflawni safonau da yn eu medrau allweddol;
- ei bod yn cynnig ystod eang o brofiadau sy'n atgyfnerthu ac ysgogi'r dysgu;
- bod defnydd effeithiol iawn yn cael ei wneud o arbenigeddau'r cymorthyddion dosbarth i gyfoethogi'r profiadau dysgu;
- bod yr addysgu'n dda ar draws yr ysgol; a
- bod yna ethos gofalgar sy'n sicrhau fod bron bob disgybl yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod y pennaeth wedi rhannu ei weledigaeth glir gyda'r staff, llywodraethwyr a'r rhieni;
- llwyddiant y pennaeth a'r staff i greu cyfundrefnau effeithiol iawn ar gyfer datblygu'r ysgol;
- awydd y staff i weithio mewn partneriaeth gyda'r pennaeth er mwyn gwireddu ei weledigaeth; a
- bod yr ysgol wedi adnabod agweddau penodol i'w datblygu i'r dyfodol sydd ar waith yn barod.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i’r ysgol:

A1 barhau i godi safonau ysgrifennu Saesneg a Chymraeg, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 2;

A2 sicrhau bod yr addysgu’n cynnig gwaith heriol yn gyson ar gyfer disgyblion o bob gallu er mwyn codi safonau; a

A3 datblygu ymhellach rôl y corff llywodraethu fel cyfeillion beirniadol.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 1 mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd (y dangosydd pynciau craidd) yn is na chyfartaledd yr ysgolion yn yr un teulu, ond yn uwch na chyfartaledd Cymru mewn tair o'r pedair blynedd. Dros y pedair blynedd ddiwethaf bu'r duedd yn weddol amrywiol yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth.
Yn gyffredinol, roedd y niferoedd yn cyflawni lefel 3 yng nghyfnod allweddol 1 yn uwch na'r teulu yn y tri phwnc craidd dros y cyfnod yma.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru dros y tair blynedd ddiwethaf ond yn is na chyfartaledd ysgolion y teulu yn 2010 a 2011. Yn ystod y blynyddoedd hyn, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 5 yn uwch na chyfartaledd y teulu yn y Gymraeg, Saesneg a mathemateg. Yn gyffredinol, bu'r niferoedd yn cyflawni'r lefelau uwch yn well na chyfartaledd y teulu dros y bum mlynedd flaenorol. Mae'r merched wedi perfformio yn well na'r bechgyn yn y ddau gyfnod allweddol dros y pedair blynedd diwethaf.

Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn y ddau gyfnod allweddol. Mae'r disgyblion mwy abl a thalentog yn cyflawni'n addas ar y cyfan.

Mae llawer o'r plant yn dechrau yn yr ysgol â medrau is na'r disgwyl ar gyfer plant o'u hoed. Mae safonau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen o'u cymharu â chanlyniadau asesiadau sylfaen ar fynediad i'r ysgol yn dangos cynnydd arwyddocaol. Mae medrau darllen ac ysgrifennu cynnar y disgyblion yn dangos cynnydd cadarn. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif helaeth ohonynt yn cyflawni'r deilliannau a ddisgwylir ar gyfer eu hoed mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac mewn datblygiad mathemategol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae bron pob un o'r disgyblion yn cyfathrebu'n effeithiol, yn enwedig ar lafar yn y Gymraeg, ac yn gwneud defnydd llawn o'u medrau darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Maent yn defnyddio'r Gymraeg yn rhugl ac effeithiol ar bob math o achlysur ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r ffordd mae rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd yn nodwedd dda. Mae sgiliau gwrando bron pob disgybl yn dda. Gall y mwyafrif drin a thrafod amrywiol bynciau yn effeithiol yn y Gymraeg ar draws yr ysgol, ac yn y Saesneg.

Gwnânt ddefnydd llwyddiannus o ddeunydd darllen mewn un iaith a chyflwyno'r wybodaeth mewn iaith arall. Mae llawer o ddisgyblion yn medru darllen yn ystyrlon a chyda mynegiant da yn y ddwy iaith ac yn ysgrifennu i safon sy'n briodol i'w hoed a'u

gallu. Defnyddia'r disgyblion ystod eang o fedrau darllen ac ysgrifennu yn effeithiol i wahanol bwrpasau. Mae hyn yn cynnwys darllen proflenni, bras-ddarllen, cip-ddarllen, ail ddrafftio ac ysgrifennu i wahanol gynulleidfaoedd. Er bod eu gwaith ysgrifenedig yn y ddwy iaith yn rhoi sylw priodol i gywirdeb sillafu, atalnodi a gramadeg, mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio gormod o daflenni gwaith ac mae cyflwyniad eu gwaith ac ansawdd y llawysgrifen yn llai effeithiol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion drwy'r ysgol yn gweithio yn annibynnol gan wneud defnydd da o'u hamser a chadw ar dasg. Maent yn arddangos brwdfrydedd ac agwedd bositif tuag at ddysgu.

Mae safonau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn y ddau gyfnod yn dda. Maent yn mesur, casglu data ac yn defnyddio graffiau'n effeithiol i gyflwyno eu darganfyddiadau mewn pynciau gwahanol, megis hanes, coginio a gwyddoniaeth, ar draws y cwricwlwm. Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu bron bob un o'r disgyblion yn datblygu'n dda.

**Lles: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, hapus a gofalgar ac mae mwynhad y disgyblion a'u rhan weithredol ym mywyd yr ysgol yn nodweddion cryf. Mae gan yr holl ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o faterion iechyd ac meant yn wybodus iawn am bwysigrwydd bwyta'n iach. Maent yn cyflawni'n dda yn eu datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn nodi eu bod yn mwynhau eu profiadau dysgu.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos diddordeb a chymhelliant yn eu gwaith ac maent yn dangos balchder a hyder wrth ymgymryd â gweithgareddau ymarferol a chorfforol. Maent yn datblygu eu sgiliau i wella eu dysgu eu hunain.

Mae ymddygiad y disgyblion yn gyson dda tuag ei gilydd, tuag at yr athrawon ac ymwlewyr. Mae ymddygiad yn ystod gwersi ac amser chwarae yn dda ac mae'r disgyblion yn gwrtais ac yn ymateb yn dda i'w cyd-ddisgyblion ac i oedolion. Maent yn datblygu hyder ac agweddau positif a pharchus at blant eraill ag oedolion, sy'n sylfaen dda ar gyfer datblygu ymhellach eu medrau cymdeithasol a bywyd.

Mae canran presenoldeb yr ysgol yn dda, sef 93.49%, sy'n uwch na'r cyfartaledd lleol a chenedlaethol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mynychu'n rheolaidd ac yn brydlon.

Mae llais y plant yn cael lle amlwg ym mhenderfyniadau'r ysgol. Mae cyngor ysgol wedi cael dylanwad cadarnhaol ar waith yr ysgol a deilliannau penodol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod helaeth o brofiadau dysgu cyfoethog ar gyfer disgyblion o bob oedran. Mae athrawon yn cydweithio i gynllunio rhaglenni gwaith sydd yn ennyn diddordeb y disgyblion. Caiff gweithgareddau dysgu eu cyfoethogi ymhellach

trwy ystod dda o weithgareddau ymarferol diddorol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn cael lle amlwg o fewn y cynllunio sy'n galluogi'r disgyblion i'w defnyddio yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae'r athrawon yn ymgorffori gweithgareddau sy'n hybu medrau meddwl disgyblion mewn llawer o'r gwersi.

Mae'r ddarpariaeth a'r cynllunio ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn dda. Hyrwyddir y Cwricwlwm Cymreig yn llwyddiannus ymhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol trwy sicrhau bod y disgyblion yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau diwylliannol Cymreig y gymuned leol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo deallusrwydd hanes, daearyddaieth, celf, traddodiadau a diwylliant Cymru yn dda. Mae hwn yng nghraidd gwaith ac ethos yr ysgol.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wedi ei datblygu'n effeithiol. Mae'r ysgol wedi ennill Baner Werdd yr Ysgol Eco am yr ail dro. Mae'r Clwb Eco'n falch o'i swyddogaeth a dangosant ymwybyddiaeth aeddfed o broblemau pobl eraill a'r byd. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i faterion cyfoes sydd yn y newyddion ar draws y byd ac sydd o ddiddordeb i'r disgyblion.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu'n dda trwy'r ysgol. Pan fo'r addysgu ar ei orau, anogir disgyblion i weithio'n annibynnol i gynhyrchu gwaith o safon dda. Mae gan athrawon ddealltwriaeth drwyadl o'r cwricwlwm, maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir ac yn ysgogi disgyblion yn effeithiol. Mae cyflymder da i'r gwersi ac mae'r athrawon bob amser yn sefydlu perthynas dda â'r disgyblion.

Yn y gwersi iaith, mae disgyblion yn cael cyfleoedd da i wirio eu gwaith ar sail meini prawf llwyddiant penodol. Mae rhai cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu gwaith ysgrifennu eu hunain a gwaith ei gilydd mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Mae'r arfer o gynnwys y meini prawf llwyddiant ar gyfer y medrau allweddol yn datblygu'n dda.

Mae athrawon yn rhoi sylw dwys i'r disgyblion pan fyddant wrth eu tasgau. Er hynny, nid yw'r tasgau pob tro wedi'u haddasu'n ddigonol ar gyfer yr holl ystod gallu ac maent, ar adegau, yn brin o her.

Yn yr ychydig iawn o sesiynau lle mae diffygion yn yr addysgu, mae'r cyflwyniadau yn rhy hir a chyflymder yr addysgu yn araf. Mae'r cwestiynu'n gaeedig ac mae lefelau cyfranogiad disgyblion yn gostwng.

Mae gweithdrefnau asesu effeithiol sy'n cofnodi cyrhaeddiad pob disgybl yn glir. Mae proses o dracio cynnydd disgyblion o'r Cyfnod Sylfaen drwy gyfnod allweddol 2 wedi ei sefydlu'n gadarn, a'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol er mwyn gosod targedau unigol i ddisgyblion. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n llwyddiannus. Ar y cyfan mae marcio gwaith yn bositif ac yn hybu disgyblion i wella, ond nid yw'n ddigon cyson ar draws yr ysgol

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cwrdd â'r gofynion statudol ac yn cynnwys sylwadau pwrpasol ar gynnydd y disgyblion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar ac mae'r holl staff yn hyrwyddo gwerthoedd uchel. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad moesol, cymdeithasol, diwylliannol ac ysbrydol yn dda. Mae yna naws addolgar yn y cydaddoliad dyddiol. Cyfranna'r disgyblion yn dda at wasanaethau crefyddol a chânt gyfle i fyfyrio ar y neges a gyflwynir.

Mae'r arweiniad addysgol yn dda ac yn hyrwyddo lles y disgyblion trwy sicrhau eu bod yn gweithio i'w targedau er mwyn gwneud cynnydd i symud ymlaen yn gyflym i'r camau nesaf yn eu dysgu. Caiff pwysigrwydd iechyd corfforol ei bwysleisio'n effeithiol trwy'r cwricwlwm. Cefnogir hyn gan gyfleusterau chwarae da awyr agored a thrwy ddisgyblion yn cael cyfle cyfartal i ymuno yn yr ystod eang o gyfleoedd allgyrsiol.

Mae'r ysgol yn cysylltu â nifer o asiantaethau arbenigol, fel yr heddlu, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Defnyddir arbenigedd yr athro anghenion arbennig yn effeithiol. Mae'r cwricwlwm yn diwallu anghenion grwpiau ac unigolion ac yn cynnig rhaglen bersonol o ansawdd uchel ar gyfer disgyblion ag anghenion penodol. Mae cynlluniau unigol ar gyfer disgyblion perthnasol, ac adolygiadau rheolaidd o'u gwaith sy'n cynnwys rhieni a disgyblion fel rhan o'r broses. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn glir iawn o'r hyn sydd yn ddisgwyliedig ohonynt ac yn gwneud cynnydd da.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos gynhwysol iawn yn yr ysgol. Mae yma gymuned groesawgar ac mae awyrgylch gynnes ymhlith y staff a'r disgyblion. Dengys pawb yr awydd i helpu ei gilydd a rhoir cyfle cyfartal i bob aelod o'r ysgol. Nodwedd amlwg yw'r ethos teuluol sy'n seiliedig ar weithredu polisïau sy'n parchu hawliau pob unigolyn o fewn cymuned yr ysgol. Cyfranna'r awyrgylch yn helaeth at lefelau presenoldeb a safonau ymddygiad ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn effeithiol iawn yn paratoi disgyblion ar gyfer camau nesaf mewn bywyd. Hyrwyddir ymagweddau cadarnhaol iawn tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth drwy weithdrefnau megis casglu tuag at elusennau, agweddau rhyngwladol, themau cwricwlaidd ac amser cylch.

Mae'r ysgol ar safle braf ac mae'r tir yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol ar gyfer chwarae a dysgu. Ceir cyflenwad helaeth o adnoddau o safon uchel ac mae'r arddangosfeydd lliwgar a deniadol drwy'r ysgol gyfan yn ysgogol iawn. Mae'r cyfleusterau'n lân a chaiff yr holl safle a'r adeilad eu cadw'n raenus. Mae gweithdrefnau effeithiol iawn ar gyfer rheoli'r adeilad a'r safle er budd yr ysgol a'r gymuned.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth a gwerthoedd clir sy'n cael eu cefnogi a'u hyrwyddo gan y llywodraethwyr a'r staff ac yn rhoi cyfeiriad clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae'r uwch dîm rheoli yn cwrdd yn gyson i adolygu'r ardaloedd i wella yn y cynllun datblygu ysgol. Mae gan yr aelodau ddealltwriaeth eglur o'u rôl a'u cyfrifoldebau ac mae yna agwedd gryf tuag at waith tîm i gefnogi'r dysgu a'r addysgu drwy'r ysgol.

Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn effeithiol. Mae wedi gwneud cynnydd da wrth weithredu'r Cyfnod Sylfaen ac wrth godi safonau iaith bechgyn yn benodol. Datblygir medrau meddwl y disgyblion yn dda ar draws yr ysgol a rhoddir llais clir i'r disgyblion wrth benderfynu ar agweddau o waith yr ysgol.

Mae ystod eang o bolisïau rheolaethol a chwricwlaidd sy'n cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae gan yr holl staff gyfrifoldebau a disgrifiadau swyddi clir ac maent yn cyflawni eu dyletswyddau'n dda. Cefnogir datblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff trwy system rheoli perfformiad effeithiol.

Mae'r corff llywodraethol a'r pennaeth yn cydweithio'n effeithiol a derbynia'r llywodraethwyr adroddiadau rheolaidd gan y pennaeth. Mae'r llywodraethwyr yn ymwybodol o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu, ond maent yn cydnabod bod angen iddynt fod yn fwy heriol a chymryd rôl fwy blaenllaw ym mhroses hunan-arfarnu'r ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae hunan arfarnu'n greiddiol i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae gan reolwyr weithdrefn lwyddiannus sy'n rhoi sylw penodol i bob pwnc neu agwedd dros gyfnod o dair blynedd. Rhoddir ystyriaeth i ystod o wybodaeth sy'n cynnwys data ar safonau a dadansoddiad o dueddiadau dros gyfnod. Rhoddir sylw cyson i dystiolaeth am ansawdd yr addysgu a'r dysgu drwy arsylwadau dosbarth a sefydlwyd trefniadau priodol i ganfod barn rhieni, aelodau staff, disgyblion a llywodraethwyr drwy holiaduron. Mae'r pennaeth hefyd yn gwneud defnydd effeithiol o adroddiadau monitro'r awdurdod lleol.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn amlinellu cryfderau a meysydd ar gyfer datblygiad yn eglur. Mae cyswllt agos rhwng deilliannau hunan arfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynlluniau gwella blynyddol o ansawdd da ac yn cynnwys strategaethau priodol sy'n nodi tasgau i'w cyflawni o fewn cyfnodau addas. Mae cyfrifoldebau am gydlynu'r strategaethau a nodir wedi eu dyrannu'n briodol i wahanol aelodau staff ac wedi arwain at welliannau penodol mewn safonau llythrennedd ar draws yr ysgol.

Mae'r staff wedi ymglymu mewn ystod o gyfleoedd hyfforddiant a datblygiad. Mae cydweithio arbennig o dda rhwng y staff sy'n aml yn myfyrio ac yn gwerthuso ymarfer ei hunain. Caiff hyn ddylanwad positif ar addysg a lles disgyblion. Mae'r staff yn rhwydweithio â staff eraill yn y ddau glwstwr cyfagos ac mae hyn yn cael effaith bositif ar safonau. Mae'r ysgol yn datblygu'n gynyddol fel cymuned ddysgu proffesiynol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau gyda'r rhieni'n gryf ac maent yn dangos cefnogaeth dda i waith yr ysgol. Mae cynlluniau trosglwyddo rhwng yr ysgol a'r ysgolion uwchradd yn galluogi disgyblion i fod yn barod ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae amryw o weithgareddau pontio a chymedroli addas ar raddfa dalgylch yr ysgol uwchradd. Mae cydweithio adeiladol gydag ysgolion cynradd eraill yn y dalgylch. Ceir partneriaethau effeithiol gydag ymwelwyr a gwirfoddolowyr ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y disbylion.

Ceir cysylltiadau rheolaidd gyda'r awdurdod lleol a sefydliadau hyfforddi athrawon. Mae'r ysgol yn cydweithio gydag ysgolion clwstwr Rhydywaun a chlwstwr Cyfarthfa ar brosiectau pwrpasol er mwyn sicrhau bod arfer dda yn cael ei rannu.

Ceir cysylltiadau da gyda'r gymuned a chydag ychydig o fusnesau lleol. Daw aelodau o'r gymuned i'r ysgol i rannu profiadau gyda'r disgyblion a threfnir ymweliadau lleol ar eu cyfer.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n effeithiol. Mae'r holl staff yn cydweithio'n effeithiol er mwyn creu amgylchedd cyffrous a deniadol i'r disgyblion.

Mae'r athrawon yn defnyddio eu hamser cynllunio, paratoi ac asesu'n effeithiol ac o ganlyniad i'r trefniadau hynny mae disgyblion yn elwa ar waith arbenigwyr, fel ym maes addysg gorfforol. Mae rôl y staff cefnogi yn effeithiol iawn ar draws yr ysgol.

Darpara'r ysgol hyfforddiant addas ar ffurf cyrsiau unigol a chyrsiau hyfforddiant ar y cyd. Gwna'r defnydd gorau posibl o'r adnoddau i atgyfnerthu profiadau dysgu'r disgyblion.

Mae'r gwariant yng nghynlluniau datblygu'r ysgol yn cael ei gynllunio a'i gofnodi'n ofalus, yn arbennig ar gyfer anghenion staffio.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion ac yn ei defnydd o gyllid.

# Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, roedd perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 1 mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd (y dangosydd pynciau craidd) yn is na chyfartaledd yr ysgolion yn yr un teulu, ond yn uwch na chyfartaledd Cymru mewn tair o'r pedair blynedd. Dros y pedair blynedd ddiwethaf bu'r duedd yn weddol amrywiol yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Yn y Gymraeg roedd y canlyniadau yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol a'r teulu yn 2008, 2010 a 2011. Mewn mathemateg roedd y canlyniadau o dan y cyfartaleddau cenedlaethol a'r teulu dros y pedair blynedd diwethaf. Mewn gwyddoniaeth roedd y canlyniadau yn uwch na chanlyniadau cenedlaethol, lleol a'r teulu yn 2008 a 2010 ond yn is na'r cyfartaleddau yn 2011.

Yn gyffredinol, roedd perfformiad yr ysgol yn y dangosydd pynciau craidd a'r pynciau craidd yn y 50% isaf o ysgolion sy'n debyg o ran niferoedd cinio am ddim yn ystod y bum mlynedd diwethaf.

Yn gyffredinol, roedd y niferoedd yn cyflawni lefel 3 neu well yng nghyfnod allweddol 1 yn uwch na'r teulu yn y tri phwnc craidd dros y cyfnod yma.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru dros y tair blynedd ddiwethaf ond yn is na chyfartaledd ysgolion y teulu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn Saesneg mae'r canlyniadau wedi bod yn uwch na chyfartaleddau cenedlaethol a lleol dros y pedair blynedd diwethaf ond yn is na chanlyniadau'r teulu yn 2010 a 2011. Yn y Gymraeg, mae'r canlyniadau wedi bod yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol dros yr un cyfnod ond yn is na'r teulu yn 2010 a 2011. Mewn mathemateg a gwyddoniaeth mae'r canlyniadau wedi bod yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol, lleol a'r teulu yn 2008, 2009 a 2011, ond yn is na'r teulu yn 2010.

Yn 2011, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 5 yn uwch na chyfartaledd y teulu yn y Gymraeg, Saesneg a mathemateg. Yn gyffredinol, bu'r niferoedd yn cyflawni'r lefelau uwch yn well na chyfartaledd y teulu dros y bum mlynedd flaenorol. Mae'r merched wedi perfformio'n well na'r bechgyn yn y ddau gyfnod allweddol dros y pedair blynedd diwethaf.

Yn gyffredinol, mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd pynciau craidd a'r pynciau craidd wedi amrywio o gymharu ag ysgolion sy'n debyg o ran niferoedd cinio am ddim yn ystod y pedair blynedd diwethaf.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymateb i holiaduron y rhieni a gofalwyr**

Cafwyd 73 ymateb i holiadur y rhieni neu ofalwyr. Mae’r ymatebion yn gadarnhaol ac o gwmpas neu’n uwch na’r cyfartaleddau cenedlaethol. Roedd yr holl rieni’n fodlon â’r ysgol yn gyffredinol, ac yn credu ei bod yn cael ei rhedeg yn dda. Roedd bron bob rhiant o’r farn bod eu plant yn hoffi’r ysgol ac yn gwneud cynnydd da yno. Roedd bron bob rhiant yn credu bod y staff yn trin pob plentyn yn deg a’u bod yn ddiogel yn yr ysgol. Roedd yr holl rieni o’r farn bod y plant yn ymddwyn yn dda a bron bob rhiant yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. Roedd bron bob rhiant yn credu bod yr ysgol yn darparu amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau. Roeddent hefyd o’r farn bod y gwaith cartref yn fuddiol ac roeddent yn fodlon gyda’r modd oedd yr ysgol yn paratoi eu plant ar gyfer symud i’r ysgol uwchradd.

**Ymateb i holiaduron y dysgwyr**

Cwblhaodd 100 o blant yr holiadur. Mae’r ymatebion yn rhoi darlun cadarnhaol, sydd o gwmpas neu’n uwch na’r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd ar gyfer pob agwedd. Roedd yr holl blant yn dweud bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach ac roeddent oll yn credu bod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu ac i wneud cynnydd. Roeddent o’r farn bod gan yr ysgol ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i ganiatáu iddynt wneud eu gwaith. Roedd bron bob plentyn yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn poeni ac yn credu bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd. Roedd bron bob un yn credu eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Roedd llawer yn credu bod yr ysgol yn delio’n dda ag unrhyw fwlio ac o’r farn bod gwaith cartref yn help iddynt ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol. Roedd y mwyafrif o’r disgyblion yn credu bod plant eraill yn ymddwyn yn dda yn ystod amser cinio a’r egwyl a bod plant eraill yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth a’u bod yn gallu gwneud eu gwaith o’r herwydd.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Dr David Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Mr Enir R. Morgan | Arolygydd Tîm |
| Mrs Eleri A. Hurley | Arolygydd Tîm |
| Dr Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Mr Rhys Hughes | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mr Dewi Hughes | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.